| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **10 CHWEFROR 2022** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2021/22 –<br>ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021) i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Taflen Penderfyniad Cabinet 18/01/2022
Adroddiad Cabinet 18/01/2022: Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 18 Ionawr 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

**PWNC**

Eitem 8: RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD (SEFYLLFA 30 TACHWEDD 2021)

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- lleihad o £15,000 mewn defnydd o fenthyca,
- cynnydd o £3,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- cynnydd o £104,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd o £75,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- lleihad o £1,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
- cynnydd o £363,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.